



## NEGES GAN Y CYNGHORYDD LIZ ROBERTS

Dymunaf gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb wnaeth bleidleisio ar y 4ydd o Fai, ac yn arbennig i bawb wnaeth fy nghefnogi, rydw i'n hynod o ddiolchgar. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at eich gwasanaethu unwaith eto dros y pum mlynedd nesaf. Er y bydd cyfnodau heriol o'n blaenau, gyda Llywodraeth Cymru yn lleihau cyllidebau unwaith eto, fe allwn ni, gyda'n gilydd,

wneud gwahaniaeth wrth sicrhau bod ein cymunedau gwledig yn ffynnu ac yn llwyddo. Rydw i hefyd yn edrych ymlaen at barhau i weithio ar brosiectau sydd eisoes ar ddyfod ac yn edrych ymlaen at drafod eich syniadau a'ch awgrymiadau **chi** am brosiectau'r dyfodol.

Dymunaf hefyd ddiolch i'r rhai sy'n staffio ein gorsafoddd pleidleisio, sy'n gwneud eu gwaith yn ddiwyd a phob tro â gwên wrth groesawu'r etholwyr.

Diolch yn fawr iawn ichi.

*CYNGHORYDD LIZ*


## Yr Wyl Flodau

Bydd **Eglwys Gwyddelan Sant** yn cynnal ei **Gŵyl Flodau** flynyddol tuag at ddiwedd mis **Awst**. Does dim dyddiad pendant eto, ond bydd o gwmpas penwythnos **Gŵyl y Banc**.



Awst 12<sup>fed</sup> 1910

GWESTEION ADNABYDDUS :- Heddiw (Dydd Iau), bydd Mrs Lloyd George yng nghwmni'r Canghellor [ei gŵr, David Lloyd George] yn seremoni agoriadol y basâr yng Nghapel Moriah. Bydd y seremoni yn cychwyn am 2 o'r gloch. Mr William Jones, A.S., fydd y llywydd.



Llun cynnar o Gapel Moriah